WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mrs Christine Salter
Prif Weithredwr Dros Dro
Cyngor Caerdydd
Neuadd y Sir
Caerdydd
Glanfa Iwerydd
CF10 4UW

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 654A2013 |
| **Dyddiad** | 2 Rhagfyr 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **2** |

Annwyl Christine

## Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 30 Medi 2013, rhoddais fy marn ynghylch a yw Cyngor Caerdydd (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio ar gyfer gwella.

Mae'n ofynnol i mi hefyd, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

### Yn fy marn i, ac yn seiliedig ar waith archwilio a wnaethpwyd hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur a cheir potensial i gryfhau ei drefniadau o ran dilyn canllawiau

Rwyf wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i ddyletswyddau oherwydd:

- mae'r Cyngor wedi cymeradwyo a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2012-13 (yr Adroddiad) cyn y terfyn amser statudol, sef 31 Hydref 2013;
- mae'r Adroddiad yn rhoi gwybodaeth am berfformiad y Cyngor yn 2012-13;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys manylion perfformiad a chymariaethau, fel y'u mesurwyd gan yr holl ddangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol, yn erbyn ei dargedau ac yn erbyn cyfartaleddau Cymru;
- mae'r adroddiad ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor.

Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio'n llawn â'i ddyletswyddau dylai'r Cyngor hefyd fod wedi:

- rhoi esboniad o'r prosesau y mae'r Cyngor wedi'u dilyn i gyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella o dan y Mesur;
- darparu manylion am y ffyrdd y mae'r Cyngor wedi arfer ei bwerau cydweithredu i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion gwella ac a yw'r gweithgaredd hwn wedi cyflawni ei ganlyniadau bwriadedig.

Mae potensial i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ymhellach drwy:

- Roi gwerthusiad cliriach o berfformiad a thynnu sylw at berfformiad llai ffafriol a pherfformiad sy'n gwella (nodwyd y mater hwn fel maes i wella arno yn ein llythyr y llynedd ac nid yw wedi'i ddatrys eto).
- Cryfhau gwybodaeth gymharol drwy gymharu ei berfformiad â sefydliadau tebyg eraill.
- Darparu manylion ar ddull y Cyngor o gyhoeddi'r Adroddiad a sut y mae wedi ystyried anghenion gwahanol gynulleidfaoedd targed a hwyluso ymgysylltu â'r rhai y mae'n eu gwasanaethu. (Mae mynediad i'r adroddiad yn parhau i fod yn ddibynnol ar wefan y Cyngor, ni nodwyd yn yr adroddiad ble y byddai copïau ar gael neu a fyddai'r adroddiad ar gael mewn fformatau eraill neu mewn ieithoedd eraill.)

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Nid wyf yn gwneud unrhyw gynigion newydd ar gyfer gwella oherwydd mae’r Cyngor yn y broses o fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella yr wyf wedi'u gwneud o'r blaen ynghylch ei ddull o adrodd ar berfformiad. Bydd fy asesiad corfforaethol yn cynnwys rhagor o waith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi gwaith rheoli ac adrodd ar berfformiad y Cyngor yn ystod y misoedd i ddod. Byddaf yn adrodd ar hyn, yn ogystal â chrynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14, yn fy Adroddiad Asesiad Corfforaethol y byddaf yn ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Lesley Griffiths – Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Steve Barry – Rheolwr
Sam Spruce – Arweinydd Archwilio Perfformiad